# Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Tecach: **laenoriaethau i Brif Weinidog Cymru**

RNIB
Cymru

Golwg gwahanol
See differently



**RNIB Cymru yw'r elusen colled golwg fwyaf yng Nghymru, ac yr ydym yn darparu cymorth a gwasanaethau ar gyfer pobl ddall ac â golwg rhannol, yn ogystal â'u teuluoedd, ffrindiau, a gofalwyr, i helpu wella bywydau a grymuso pobl i fyw'n dda gyda cholled golwg.**

Mae tua 112,000 o bobl yn byw gyda cholled golwg yng Nghymru, a rhagwelir bydd y nifer hwn yn dyblu erbyn 2050.

© RNIB elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (226227), yr Alban (SCO39316), Ynys Manaw (1226). Yn gweithredu hefyd yng Ngogledd Iwerddon.

**Mae RNIB Cymru eisiau cefnogi eich gweledigaeth ar gyfer Cymru sydd yn deg a chyfartal. Gofynnwn i chi ganolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol...**

## 1. Mae angen eich cymorth i roi terfyn ar golled golwg y gellir ei osgoi.

Bum mlynedd yn ôl, fel Gweinidog Iechyd, cymeroch chi gam beiddgar drwy sicrhau taw Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i roi Mesurau Gofal Llygaid ar waith. Mae hyn wedi rhoi mewnwelediad i ni o raddfa'r her sy'n ein hwynebu ym maes gofal llygaid. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod mwy na 78,000 o bobl yng Nghymru sy'n wynebu'r risg uchaf o golli eu golwg yn barhaol yn aros yn rhy hir am driniaeth all arbed golwg.

Nawr yw'r amser am weithrediad mwy pendant, wedi ei gefnogi gan arloesedd a buddsoddiad, i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleifion.

**Fel Prif Weinidog, yr ydym yn eich annog i:**

- Derbyn argymhellion y Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg ac ymrwymo'r cyllid angenrheidiol i drawsnewid gwasanaeth gofal llygaid Cymru.
- Datblygu a gweithredu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Gofal Llygaid i Gymru, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol i wella gwasanaethau gofal llygaid.
- Dal byrddau iechyd yng Nghymru i gyfrif yn effeithiol o ran eu cynnydd tuag at leihau rhestrau aros yn unol â'r Mesurau Gofal Llygaid.
- Pennu'r cerrig milltir a'r amserlenni ar gyfer gweithredu'r Cofnod Clinigol Cleifion Electronig yn llawn.



## 2. Sicrhau fod strydoedd a thrafnidiaeth gyhoeddus Cymru yn hygyrch ac yn ddiogel i bobl ddall ac â golwg rhannol.

Mae cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus yn allweddol i bobl ddall ac â golwg rhannol er mwyn iddynt gynnal eu hannibyniaeth, cadw'n heini, cadw mewn cysylltiad â theulu a'u cymuned, a chael mynediad at wasanaethau allweddol megis gofal iechyd. Er y dylai pobl gyda cholled golwg allu teithio'n rhwydd ac yn hyderus, yr ydym ymwybodol eu bod yn wynebu rhwystrau annerbyniol.

**Fel Prif Weinidog, yr ydym yn eich annog i wneud y canlynol:**

- Blaenoriaethu diogelwch pobl anabl wrth i gynlluniau Teithio Llesol gael eu cyflwyno ar draws Cymru, drwy mewnblannu **Egwyddorion Allweddol ar gyfer Dylunio Strydoedd Cynhwysol RNIB Cymru** i ganllawiau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.
- Cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wahardd parcio ar balmentydd.
- Sicrhau fod hygyrchedd ar flaen y gad mewn cynlluniau i ddiwygio a gwella gwasanaethau bysiau, drwy ddarparu gwybodaeth hygyrch, cyhoeddiadau sain, a seilwaith safleoedd bysiau a gorsafoedd sydd wedi'u dylunio'n gynhwysol.
- Ymdrechu tuag at gael un o'r rhwydweithiau rheilffordd mwyaf hygyrch yn y DU drwy sicrhau bod gan bob gorsaf balmantau cyffyrddol ar blatfformau.
- Sicrhau fod camau'n cael eu cymryd yn erbyn defnydd anghyfreithlon o e-sgwteri ar ein palmentydd ac ardaloedd i gerddwyr.



## 3. Sicrhau mynediad amserol at adsefydlu golwg ar gyfer pawb sydd â cholled golwg.

Mae adsefydlu golwg yn wasanaeth hanfodol sy'n helpu pobl â cholled golwg i ailadeiladu eu bywydau ac yn rhoi'r sgiliau a'r cymorth hanfodol sydd eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol. Gwarantwch fod pobl yn derbyn yr adsefydlu sydd ei angen arnynt drwy:

- Datblygu Cod Ymarfer newydd yn benodol ar gyfer gwasanaethau ailalluogi, adsefydlu a sefydlu.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i Arolygiaeth Gofal Cymru fonitro ac arolygu gwasanaethau adsefydlu awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau adsefydlu golwg arbenigol er mwyn sicrhau'r un lefel o ansawdd a chysondeb â'r rhai a ddisgwylir gan wasanaethau gofal a chymorth a aseswyd o ran angen.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynllunio, darparu adnoddau a darparu gwasanaethau adsefydlu, gan gynnwys adsefydlu gweledigaeth sy'n bodloni galw lleol er mwyn cefnogi unigolion i gynyddu eu hannibyniaeth.
- Gwneud adsefydlu yn hawl ddynol y gellir ei gorfodi drwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRPD) yng nghyfraith Cymru.



## 4. Gwneud gwybodaeth hygyrch yn realiti ar gyfer pobl ddall ac â golwg rhannol.

Mae un o bob tri o bobl ddall ac â golwg rhannol yng Nghymru wedi methu apwyntiad neu wedi profi effaith ar eu hiechyd oherwydd nad oeddent wedi derbyn gwybodaeth yn eu fformat angenrheidiol. Sicrhewch fod hawl pobl ddall ac â golwg rhannol i wybodaeth hygyrch yn cael ei chynnal drwy:

- Gweithio gyda GIG Cymru ar strategaeth genedlaethol i adolygu, diweddaru a gweithredu'n llawn Safonau Cymru Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl sydd wedi Colli Defnydd eu Synhwyrau.
- Drwy ddefnyddio ymgorfforiad yr UNCRPD yng nghyfraith Cymru i warantu hawliau pobl anabl i dderbyn gwybodaeth ar sail gyfartal drwy'r fformat o'u dewis.
- Sicrhau bod gan systemau TG y gwasanaeth iechyd y gallu i gofnodi a gweithredu fformat gofynnol claf yn awtomatig ac yn rheolaidd, er enghraifft anfon e-bost, neges destun, llythyr print bras neu braille.

Mae gennym gyfle i wneud Cymru yn rhywle lle mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn falch o'i alw'n gartref, sy'n cefnogi eu huchelgeisiau ac yn caniatáu iddyn nhw fyw bywyd llawn ac actif. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi a'ch cabinet i wireddu'r weledigaeth hon.

